Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Vyrnwy Nursing Home**

**Vyrnwy Nursing Home**
**Llansantfffraid**
**SY22 6AU**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

11/06/2024

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Vyrnwy Nursing Home

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Sure Care (UK) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 39 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r tîm gofal sy'n cael ei arwain yn dda yn y Vyrnwy yn dangos ymrwymiad i roi'r cymorth cywir i unigolion er mwyn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae cyfleoedd sy'n benodol dda ar gael i'r bobl wneud yr hyn y mae ganddynt ddiddordeb ynddo, yn y gwasanaeth ac yn y gymuned ehangach.

Mae diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth gyda'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae angen gwneud gwelliannau i'r cynlluniau personol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datblygu a'u hadolygu gyda'r unigolyn, a'u bod yn adlewyrchu eu hanghenion gofal a chymorth yn gywir. Mae'r rhaglen adnewyddu a chynnal a chadw parhaus yn helpu i hyrwyddo diogelwch a llesiant yr unigolion.

Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli yn dangos ymrwymiad i barhau i wneud gwelliannau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl yn rheolaidd i gasglu eu safbwyntiau.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth ac am yr hyn y gallant ei ddisgwyl os byddant yn dewis byw yn Vyrnwy. Mae hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Caiff eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u dewisiadau eu hystyried gan dîm o staff gofalgar a charedig. Maent yn cael cyfle i rannu eu barn am y gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwrando arnynt. Mae'r staff gofal yn gweithio'n galed i gynnig dewisiadau i'r bobl ymhob maes, gan gynnwys prydau bwyd, gweithgareddau, a lle yr hoffent dreulio eu diwrnod. Mae mesurau ar waith i gynnwys y bobl yn fwy wrth deilwra eu gofal a'u cymorth er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u llesiant corfforol ac emosiynol. Mae'r staff gofal yn defnyddio dulliau proffesiynol ond sydd hefyd yn deg o bryd, gan greu awyrgylch cyfeillgar iddynt ymlacio ynddo. Roedd llawer o chwerthin i'w glywed yn y gwasanaeth, ac roedd y staff gofal yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i gefnogi'r unigolion i ymgymryd â'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r rhaglen o weithgareddau yn amrywiol ac yn cael eu creu drwy gynnwys y bobl. Caiff lefel y gofal ei chanmol gan deulu a ffrindiau, a gwnaethant ddweud ei bod yn "*Rhagorol*" ac yn cael ei darparu gan staff gofal sy'n dosturiol a charedig. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol allanol mewn modd amserol pan fo angen. Mae angen gweithio ar y cynlluniau personol yn bellach er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion gofal presennol y bobl yn gywir, a bod modd i'r staff gofal eu dilyn i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth fel yr hoffent eu cael.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac i bwy y dylent roi gwybod am bryderon. Mae'r rhaglen hyfforddiant sydd ar waith yn helpu i gryfhau gwybodaeth a sgiliau'r staff er mwyn diwallu anghenion gofal unigol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn rhoi arweiniad. Mae'r arferion recriwtio a rheoli cymorth ar gyfer y staff yn helpu i hyrwyddo llesiant yr unigolion ymhellach. Caiff Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu rhoi ar waith mewn modd amserol er mwyn sicrhau na chaiff unigolion eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ffordd anghyfreithlon.

Mae systemau ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw cyfleusterau a chyfarpar. Mae'r system o archwilio a monitro yn sicrhau y caiff y materion a nodwyd eu hymdrin â nhw yn unol â lefel y brys. Mae cynllun adnewyddu parhaus ar waith sy'n gwella'r amgylchedd ac yn cefnogi llesiant yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y Vyrnwy. Maent yn dweud wrthym fod y staff gofal yn talu sylw, yn garedig ac yn ymateb yn gyflym os bydd angen cymorth arnynt. Mae'r timau o staff yn weladwy drwy'r gwasanaeth ac yn cadw llygad ar y bobl yn rheolaidd, yn enwedig y rheini sydd yn eu hystafelloedd gwely. Roedd awyrgylch hyfryd a chyfforddus i'w gael yn ystod ein hymweliad a chafodd ymwelwyr eu croesawu drwy'r diwrnod. Os bydd angen, caiff y bobl y cymorth cywir gyda'u prydau bwyd. Cânt amser i fwynhau a ni chânt eu brysio. Cafodd y bwyd ei weini'n boeth, a dywedodd y bobl wrthym fod y bwyd a'r dewisiadau bwyd yn dda. Roedd llawer o chwerthin i'w glywed yn ystod amser cinio gydag unigolion yn amlwg yn mwynhau cwmni ei gilydd. Roedd hyn yn ei wneud yn achlysur cymdeithasol hyfryd.

Gall y bobl wneud cymaint neu gyn lleied ag yr hoffent gyda'u hamser. Mae amrywiaeth o gyfleoedd i fwynhau yn y gwasanaeth ac yn y gymuned leol. Gwnaethant ddweud wrthym am y trip diweddar i lan y môr, sioe ffasiwn oedd wedi cael ei threfnu yn y cartref yn ogystal â garddio, gan gynnwys plannu tomatos a blodau. Mae cysylltiadau da wedi cael eu gwneud gyda'r gymuned leol sydd wedi cryfhau a gwella canlyniadau i'r bobl.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae mesurau'n cael eu rhoi ar waith i wneud yn siwr bod y gofal a'r cymorth yn cael eu cynllunio drwy gynnwys unigolion, a'u teilwra at eu hanghenion. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym ei fod yn dechrau cynnal cyfarfodydd pob tri mis gyda'r bobl a'u teuluoedd er mwyn trafod canlyniadau personol. Dywedodd aelodau o'r teuluoedd wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i anghenion gofal eu perthnasau. Fodd bynnag, er bod ychydig o wybodaeth yn y cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn fanwl, nid ydynt bob amser yn cael eu cadw'n gyfredol mewn modd amserol. Mae hyn yn golygu nad oes gan y staff gofal bob amser y wybodaeth gywir i sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir. Mae'r canlyniadau sydd wedi'u cofnodi ar gyfer y bobl yn gyffredinol ac nid ydynt yn canolbwyntio ar y person. Mae'n hanfodol cadw'r wybodaeth yn gyfredol ar gyfer y staff gofal, yn enwedig er mwyn i'r staff newydd a'r staff asiantaeth ei dilyn. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae trefniadau ar waith i gefnogi'r bobl i aros mor iach â phosibl. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol pan fo angen. Mae hyfforddiant clinigol penodol wedi cael ei gyflwyno, a siaradodd y staff nyrsio'n gadarnhaol iawn amdano. Maent yn ei ystyried fel ffordd i ehangu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach er mwyn sicrhau y caiff anghenion llesiant yr unigolyn eu diwallu. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd. Caiff hyfforddiant ei ddarparu ac mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o'r system feddyginiaeth newydd sydd wedi cael ei chyflwyno.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n parhau i wella. Mae'r rhaglen adnewyddu yn cynnwys llawr newydd, dodrefn, llenni a dillad gwely newydd. Mae'r gwaith ailaddurno ymhob ardal o'r gwasanaeth yn barhaus. Mae'r ystafelloedd ymolchi wedi cael eu hadnewyddu; mae'r gwaith hwn yn parhau er mwyn adnewyddu'r cyfleusterau en-suite. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol iawn ynghylch y newidiadau. Mae ardal y lolfa yn galluogi'r bobl i gymdeithasu ynddi os hoffent wneud hynny. Bydd rhai o'r bobl yn dewis aros yn eu hystafelloedd eu hunain a gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt i fod yn gyfforddus. Roedd rhai ohonynt yn hoffi treulio eu hamser yn gwylio'r teledu ac yn gwrando ar y radio. Roedd eraill yn cwrdd â theulu a ffrindiau ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd eu hunain. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ag eitemau sy'n bwysig i'r unigolyn.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith sy'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer y staff, a pholisïau i arwain eu hymarfer. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Dywedodd y staff cadw tŷ wrthym fod ganddynt ddigon o gyfarpar a chynnyrch i gyflawni eu swydd. Roeddent yn brysur ymhob ardal gan gynnwys yr ystafelloedd cymunedol ac ystafelloedd gwely'r bobl.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ardal awyr agored. Mae hon yn ardal sy'n hawdd mynd ati gydag ardaloedd eistedd, gwelyau blodau uchel a gerddi bach. Siaradodd y bobl yn frwdfrydig am yr ardal hon a sut y gallant blannu blodau a thomatos. Mae'n ardal ddiogel i'w mwynhau ac mae wedi helpu i wella canlyniadau i'r bobl.

Mae systemau ar waith i nodi risgiau i iechyd a diogelwch a'u lliniaru er mwyn cefnogi diogelwch a llesiant y bobl sy'n rhan o'r gwasanaeth. Mae'r mesurau ar waith yn sicrhau y caiff unrhyw waith atgyweirio ar unwaith sydd angen ei gwblhau ei nodi, ei adrodd, a chaiff camau eu cymryd yn unol â lefel ei ddifrifoldeb.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau effeithiol ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth er mwyn ysgogi gwelliannau. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd ar bob maes gan gynnwys y gegin, cynnal a chadw, a chofnodion gofal. Caiff y rhain eu goruchwylio gan y rheolwr gweithrediadau a'r unigolyn cyfrifol. Gofynnir i'r bobl am eu safbwyntiau ar y gwasanaeth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trafodaethau dyddiol â'r staff gofal, drwy holiaduron a chyfarfodydd â pherthnasau/preswylwyr. Mae gan y rheolwr bolisi drws agored lle gall unigolion a pherthnasau ddod i siarad unrhyw bryd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd ac yn siarad â'r unigolion a'r staff. Mae adolygiad pob chwe mis o'r gwasanaeth yn dangos yr hyn sy'n gweithio'n dda a pha newidiadau sydd angen eu gwneud i wella canlyniadau i'r bobl.

Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ac am yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl ganddo ar gael yn natganiad o ddiben y darparwyr ac yng nghanllaw'r gwasanaeth. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o redeg y cartref yn hygyrch i'r staff gofal eu defnyddio i'w helpu i arwain eu hymarfer.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff sy'n cael arweiniad da ac sy'n cael cymorth cyson gan y tîm rheoli. Mae'r diwylliant cadarnhaol a oedd yn amlwg yn y gwasanaeth yn golygu bod yr holl staff sy'n gweithio yno'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a chânt eu hannog i barhau gyda'u datblygiad proffesiynol. Yn ddieithriad, cawsom wybod bod y rheolwr yn hawdd mynd ato ac yn eithriadol o gefnogol. Gwelsom hyn yn ystod ein hymweliad. O ganlyniad, mae hyn yn helpu i greu awyrgylch sy'n gyfeillgar ac y gellir ymlacio ynddo, ond eto sy'n broffesiynol lle mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn hapus. Mae cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cael cyfarfodydd un i un rheolaidd â'u rheolwr llinell ac arfarniad blynyddol o'u gwaith. Mae hyn yn eu helpu i fyfyrio ar eu hymarfer a nodi unrhyw faes lle mae angen hyfforddiant a datblygiad i'w cefnogi yn eu rôl. Mae rhaglen hyfforddiant reolaidd ar waith i gefnogi'r broses o ddatblygu gwybodaeth a sgiliau, sy'n helpu i hyrwyddo llesiant y bobl ymhellach.

Mae'r ymarferion recriwtio sydd ar waith yn y gwasanaeth yn dangos nad yw'r staff newydd yn dechrau gweithio hyd nes y bydd yr holl wiriadau gofynnol wedi'u cynnal. Cânt eu cefnogi drwy gyfnod sefydlu i sicrhau eu bod yn gymwys i gyflawni'r rôl, ac yna cânt eu cefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu, fel sy'n ofynnol i bob gweithiwr gofal. Mae gan y darparwr raglen recriwtio barhaus ar waith. Er eu bod yn parhau i orfod dibynnu ar staff asiantaeth o bryd i'w gilydd, mae hyn wedi lleihau'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf sy'n golygu bod mwy o barhad ar gyfer y bobl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Dylid cadw'r cynlluniau personol yn gyfredol a chanolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn adlewyrchu'r canlyniadau unigol y cytunwyd arnynt. | Newydd |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi